# TGAU CYNLLUN MARCIO

**HAF 2016**

**CYMRAEG – HAEN SYLFAENOL**
**4531/01**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016.  Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## HAEN SYLFAENOL

### ADRAN A

**1.** (i) Un marc am nodi:
- Chubut [1]

(ii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- Y Gaiman
- Esquel [2]

(iii) Un marc yr un hyd at ddau farc am nodi:
- (3) awyren
- (2) fws

[2]

**Cyfanswm marciau cwestiwn 1 = 5 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

**2.** 1 marc am bob ffaith hyd at **18 marc**
Disgwylir ffeithiau o'r darnau yn unig, a disgwylir rhai ffeithiau o'r **tair adran** yn y cwestiwn, ond ni nodir marciau penodol i bob adran.
Rhaid cyfeirio at bob adran. Dim ond unwaith y dylid gwobrwyo ffeithiau y medrir eu clustnodi i fwy nag un adran.
Os atebir ar un adran yn unig – cyfanswm o 16 marc yn unig.
Os atebir ar ddwy adran yn unig – cyfanswm o 17 marc yn unig.

| | **Darn darllen 1: PATAGONIA** | **Darn darllen 2: Dathlu 150 mlynedd** |
|---|---|---|
| **Ffeithiau am Batagonia**<br><br>**1 marc**<br>**✓f** | • Yn Ne America<br>• Rhan fwyaf o Batagonia yn yr Ariannin<br>• Rhan orllewinol yn Chile<br>• Y Gaiman ac Esquel - **dwy** o drefi'r Wladfa<br>• Porth Madryn a Rawson - **dau** o borthladdoedd y Wladfa<br>• Y Wladfa (yn nhalaith) Chubut<br>• Mynyddoedd yr Andes yn y gorllewin<br>• Gwybodaeth am bobl sy'n siarad Cymraeg<br>• 30˚C ym mis Hydref | • Yn Ne America<br>• *Arwyddion Cymraeg (e.e. Blasus, Plas y Coed, Cornel Wini)<br>• Enwau bwydydd a diodydd e.e. *asados* a the Cymreig ...<br>• Ysgol Gymraeg - Ysgol yr Hendre<br>• 7,000 o filltiroedd o fordaith |
| **Hanes y Cymry yn mynd i'r wlad a sefydlu'r Wladfa**<br><br>**1marc**<br>**✓h** | • Creu'r Wladfa yn nhalaith Chubut (Patagonia, Ariannin)<br>• Symud yn nes at yr Andes<br>• 150 mlynedd ers i'r Cymry fynd i Batagonia<br>• 1865 - sefydlu'r Wladfa<br>• 153 o ddynion, merched a phlant<br>• Hwylio o ddociau Lerpwl<br>• Hwylio ar long y Mimosa<br>• Chwilio am fywyd newydd | • Taith y Mimosa yn 1865<br>• Unrhyw un ffaith yn llawn o'r tri phwynt bwled cyntaf (y llong a'r fordaith) i gael un marc<br>• Mordaith enwocaf y Mimosa<br>• O borthladd Lerpwl<br>• Mordaith o tua 7,000 o filltiroedd<br>• Cost y fordaith - £12 i oedolion a £6 i blant<br>• Hwylio Mai 28 1865/glanio ar Orffennaf 28 1865/2 fis wedyn<br>• Cymry (wedi gadael eu mamwlad) i ddechrau bywyd gwell yn Ne America |
| **Patagonia heddiw**<br><br>**1 marc**<br>**✓ p** | • (Tua) 150,000 yn byw yno heddiw.<br>• (Tua) 5,000 o bobl yn siarad Cymraeg (+cannoedd yn dysgu'r iaith)<br>• Taith yr Urdd/Mentrau Iaith i Batagonia – (Bedwyr ab Ion yn un o'r rhai aeth yno)<br>• Pob math o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal<br>• Dathlu150 o flynyddoedd/dathlu yn 2015<br>• Cofeb yn nociau Lerpwl i ddathlu<br>• 36 awr i gyrraedd Patagonia | • Athrawes o Gymru, Sioned Wyn Jones, wedi mynd i Ysgol yr Hendre<br>• Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Sbaeneg/Cymraeg am hanner diwrnod<br>• 85 o ddisgyblion<br>• Cyswllt rhwng Ysgol yr Hendre ac Ysgol Pentreuchaf yng Nghymru (Pwllheli)<br>• Mari Thomas wedi creu gemwaith i nodi'r 150 mlynedd ers i'r Cymry fynd i Batagonia<br>• Dathlu 150 Patagonia (1865-2015)<br>• Digwyddiad yn Lerpwl i nodi 150 mlynedd ers i'r Mimosa hwylio<br>• Bwydydd e.e.*asados* a the Cymreig*, matê,* y gacen ddu, *empanadas* a jam llaeth<br>• *Arwyddion Cymraeg (e.e. 'Blasus', 'Plas y Coed', 'Cornel Wini')<br>• Disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg<br>• Croeso - partïon ayyb<br>• Prosiect Cyngor Prydeinig |

Ymwybyddiaeth o ffurf deialog: 2 farc

**Cyfanswm marciau cwestiwn 2: 20**



© WJEC CBAC Cyf.

**3.** Rhoddir **2 farc** am bob pwynt – **½ marc** am enwi nodwedd a **1½ marc** am effeithiolrwydd neu bwrpas gan gynnwys dyfynnu neu enghreifftio pwrpasol – hyd at **12**.
Enwi nodwedd (½ marc) + enghreifftio neu ddyfynnu (neu gyfeirio'n benodol at y nodwedd yn y darn darllen os nad oes modd dyfynnu) (½ marc) + rhesymu neu drafod effeithiolrwydd (1 marc).

| **Darn Darllen 1 – PATAGONIA (p)** | **Darn Darllen 2 – Dathlu 150 mlynedd (d)** |
|---|---|
| **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth/ffeithiau/hanes am Batagonia a sefydlu'r Wladfa.<br>• cyflwyno hanes aelod o'r Urdd/Bedwyr ab Ion yn ymweld â'r Wladfa<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr gwefan Patagonia<br>• darllenwyr gwefan Urdd Gobaith Cymru<br>• pobl sydd â diddordeb yn hanes Patagonia/y Wladfa<br>*(egluro sut rydym yn gwybod hyn – enghreifftio/dyfynnu)*<br><br>**y math o iaith**<br>• ffurfiol/safonol ac uniongyrchol yn y ffeil ffeithiau<br>• safonol/anffurfiol, mwy personol yn 'Taith yr Urdd'<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** nifer o ddarnau - pytiau o wybodaeth - rhestr o ffeithiau, map ayyb; darn o adroddiad/erthygl *(addas ar gyfer cyflwyno ffeithiau'n syml a chlir. Taith yr Urdd yn wahanol – adrodd hanes ei daith – fwy o naratif.)*<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. berfau 3ydd person gorffennol yn y ffeil ffeithiau; berfau gorffennol 3ydd person (cymerodd) + person 1af (sylweddolais) *(addas i gyflwyno'r hyn ddigwyddodd)*<br>• **berfau dyfodol e.e.** byddaf *(yn wahanol i sôn am yr hyn ddigwyddodd, Bedwyr yn mynegi ei deimladau, a'r dyfodol)*<br>• **cwestiwn** e.e. Ble mae Patagonia? *(annog y darllenwyr i ddarllen ymlaen a chael y ffeithiau)*<br>• **mynegi barn** e.e. profiadau yn fythgofiadwy...a gwerthfawr *(mynegi teimladau personol)*<br>• **nodi blynyddoedd** e.e. 1865, 2014, 2015 *(ffeithiol, hanesyddol a'r presennol)*<br>• **misoedd:** Hydref<br>• **enwi llefydd** e.e. Patagonia, y Wladfa, Chubut, Beunos Aires, El Plaza, De Amerig, Chile, Ariannin, Gaiman, Esquel, Andes, Cymru, Trevelin, Trelew, Heathrow, Lerpwl *(rhoi gwybodaeth am y wlad, enwi llefydd penodol, lleoli)*<br>• **teitlau** e.e. PATAGONIA, Mimosa, Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith Cymru, y Wladfa<br>• **enwau pobl** e.e. Bedwyr ab Ion, Cymry<br>• **niferoedd/ystadegau** e.e. 150,000, 5,000, 150, 153, 30 gradd, 8/9,36 *(gwybodaeth benodol, gwir a dibynadwy)* | **(3 x 2 = 6)**<br>**bwriad yr awdur**<br>• cyflwyno gwybodaeth/ffeithiau am Batagonia a sefydlu'r Wladfa.<br>• rhoi gwybodaeth am waith y gemydd Mari Thomas - gemwaith i nodi dathliad Patagonia/Mimosa<br><br>**pwy yw'r darllenwyr**<br>• darllenwyr gwefan Patagonia<br>• darllenwyr Golwg/gwefan golwg 360<br>• darllenwyr BBC Cymru Fyw<br>• pobl sydd â diddordeb yn hanes Patagonia/y Wladfa<br>*(egluro sut rydym yn gwybod hyn – enghreifftio/dyfynnu)*<br><br>**y math o iaith**<br>• Ffurfiol/safonol ac uniongyrchol yn y rhestr o ffeithiau am y llong a'r fordaith<br>• Anffurfiol/safonol yn 'Dilyn y Mimosa'<br>• Safonol/anffurfiol yn y darn am emwaith Mari Thomas<br><br>**nodweddion arddull**<br>• **ffurf:** adroddiad**/**darnau o erthyglau, rhestr o ffeithiau *(addas ar gyfer cyflwyno ffeithiau amrywiol yn syml a chlir - y ddau ddarn o adroddiad/erthygl yn fwy personol)*<br>• **berfau amser gorffennol** e.e. berfau 3ydd person gorffennol e.e. gadawodd, hwyliodd, penderfynodd, trefnodd, ymsefydlodd *(addas i gyflwyno'r hyn digwyddodd)*<br>• **berfau amhersonol** e.e adeiladwyd, defnyddiwyd *(cryno a ffurfiol)*<br>• **dyfynnu**: geiriau Mari Thomas *(barn bersonol y gemydd)*<br>• **mynegi barn/safbwynt a rhesymu** e.e. roedd yn dipyn o anrhydedd i fi... *(personol, diddorol)*<br>• **nodi blynyddoedd** e.e. 1853, 1865, 2015 *(ffeithiol, hanesyddol a'r presennol)*<br>• **misoedd/dyddiad:** S**ul,** Mai 28, Gorffennaf 28 *(nodi'r dyddiad yn benodol)*<br>• **enwi llefydd** e.e. Patagonia, Lerpwl, Llandeilo, De America, Aberdeen, China, Prydain (+ arwyddion Cymraeg) *(enwi llefydd penodol + rhoi gwybodaeth am y wlad – diddorol)*<br>• **enwau ysgolion -** Ysgol yr Hendre, Ysgol Pentreuchaf, Ysgol Tonyrefail *(cyswllt rhwng y ddwy wlad/dwy ysgol)*<br>• **teitlau** e.e. Mimosa, Vining & Killey *(penodol)*<br>• **enwau pobl** e.e. Jones, Alexander Hall a'i Feibion, Sioned Wyn Jones *(enwau pobl go iawn)*<br>• **enwau ieithoedd -** Cymraeg, Sbaeneg *(ieithoedd y ddwy wlad)* |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| • **rhestru** e.e. dynion, merched a phlant, Porth Madryn a Rawson, profiadau ac atgofion *(pwysleisio)*<br>• **dywediadau/idiomau** e.e. Cymru fach *(ffordd annwyl o ddisgrifio)*<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. Cymru fach, pell, gwahanol, estron, agos, gwerthfawr, bythgofiadwy, ychydig, newydd, hir, poblog *(nifer o ansoddeiriau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio)*<br>• **cymharu** - tywydd Patagonia a Chymru *(er mwyn dangos y gwahaniaeth)*<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **teitl y darn darllen** – PATAGONIA *(rhoi gwybod beth yw teitl y dudalen, gwybodaeth am y wlad...)*<br>• **isbenawdau -** Ble mae Patagonia? Beth wyddoch chi am Batagonia? HEDDIW, COFIO, Taith yr Urdd i Batagonia *(rhannu'r wybodaeth yn isadrannau, tynnu sylw at wybodaeth benodol)*<br>• **dyddiadau -** 1865, 2014, 2015 *(hanesyddol, ffeithiol)*<br>• **defnydd o liw** – lluniau, cefndir, print gwyrdd, map, sêr glas, print glas *(tynnu sylw at rannau penodol, gwneud y darn yn fwy deniadol ac apelgar)*<br>• **cefndir lliw -** melyn i'r blwch ffeithiau Beth wyddoch chi am Batagonia? *(tynnu sylw at rannau penodol)*<br>• **lluniau –** dau lun lliw - un ar y brig o blentyn o Batagonia, un ar y gwaelod o Bedwyr ab Ion *(lluniau'n rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenydd ac yn gwneud y cyflwyniad yn fwy diddorol a lliwgar)*<br>• **blychau** – o amgylch y map, am Beth wyddoch chi...? ac am Taith yr Urdd... *(cymorth i dynnu sylw at isadrannau; gosod yn daclus a chlir)*<br>• **sêr/swigod -** 3 yn nodi ble mae Patagonia *(dull o gyflwyno ffeithiau byr yn syml a chlir)*<br>• **print trwm/trwchus** – y cwestiwn - Ble mae Patagonia? Beth wyddoch chi am Batagonia? Taith yr Urdd i Batagonia, y Wladfa, cyflwyniad Taith yr Urdd... *(cymorth i dynnu sylw a phwysleisio)*<br>• **prif lythrennau** teitl PATAGONIA, HEDDIW, COFIO *(gwneud y teitl/isdeitlau yn amlwg)*<br>• **pwyntiau bwled -** y rhestr ffeithiau *(cyflwyno ffeithiau'n uniongyrchol a chlir)*<br>• **dolen/linc:** www.urdd.cymru ; parotpiws.com/Patagonia/atebol *(gwybod beth yw'r ffynhonnell; gwir)*<br>• **map** i ddangos ble mae Patagonia<br>• **elipsau –** Heddiw..., Cofio... | • **niferoedd/ystadegau** e.e 150, 7,000, £6, £12, 12 mlynedd *(gwybodaeth benodol, gwir, dibynadwy)*<br>• **rhestru** e.e. *matê*, y gacen ddu, *empanadas* a jam llaeth *(pwysleisio'r amrywiaeth o fwydydd)*<br>• **ansoddeiriau** i greu effaith: e.e. enwocaf, rhugl, mawr, pwysig, gwell, arbennig, anhygoel, swreal *(nifer o ansoddeiriau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio yn y darn Dilyn y Mimosa a Hanes y Mimosa ...)*<br>• **ebychnod-** Swreal! ....llaeth yn fuan wedyn! *(mynegi rhyfeddod Sioned)*<br><br>**y cyflwyniad**<br>• **dwy golofn** (am y gemwaith ar waelod y dudalen) *(dangos ei fod yn ddarn o erthygl; hefyd creu amrywiaeth)*<br>• **teitl yr erthygl –** Dathlu 150 mlynedd *(rhoi gwybod beth yw pwnc y dudalen)*<br>• **isbenawdau -** Y llong a'r fordaith, Dilyn y Mimosa, Hanes y Mimosa yn ysbrydoli Gemwaith *(rhannu'r wybodaeth yn isadrannau, tynnu sylw at wybodaeth benodol)*<br>• **logo -** 150 Patagonia ar frig y dudalen, logo golwg 360, BBC Cymru fyw/Wales *(ffynonellau swyddogol)*<br>• **dyddiadau –** 1853, Mai 28 1865, 2015 *(hanesyddol, ffeithiol)*<br>• **defnydd o liw** – lluniau, llun/poster y Mimosa, print coch, lliw llwyd/arian i'r gemwaith, amlinell las i'r blwch am y llong a'r fordaith *(tynnu sylw at rannau penodol, gwneud y darn yn fwy deniadol ac apelgar)*<br>• **cefndir lliw** - glas tywyll ar y logo 150, pinc i'r erthygl/adroddiad Dilyn y Mimosa, glas tywyll a golau i'r erthygl am y gemwaith, coch (BBC) *(tynnu sylw at rannau penodol)*<br>• **lluniau –** llun o'r Mimosa, llun o Sioned, llun o'r gemwaith *(lluniau'n rhoi mwy o wybodaeth i'r darllenydd ac yn gwneud y cyflwyniad yn fwy diddorol a lliwgar)*<br>• **blychau:** o amgylch y darn am y Mimosa a'r llong a'r fordaith ayyb *(cymorth i dynnu sylw at isadrannau; gosod yn daclus a chlir)*<br>• **print trwm/trwchus** – testun y darn darllen, Dilyn y Mimosa *(cymorth i dynnu sylw a phwysleisio)*<br>• **prif lythrennau –** testun y darn darllen DATHLU 150 MLYNEDD, DILYN Y MIMOSA, a'r erthygl am y gemwaith, enwau ar y poster *(gwneud y teitl/isteitlau yn amlwg)*<br>• **print gwyn -** yn y blwch testun a chyflwyniad i'r erthygl am y gemwaith *(tynnu sylw, creu amrywiaeth yn y cyflwyniad)*<br>• **enw'r ffynhonnell/awdur -** Alun Gibbard, GOLWG/golwg 360, BBC Cymru Fyw *(rhoi gwybod beth yw'r ffynonellau, rhai gwir)*<br>• **elipsau -** Dilyn y Mimosa... |



© WJEC CBAC Cyf.

Dyfernir **3 marc** am ansawdd cyffredinol y drafodaeth yn cynnwys mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd (e.e. rhesymau pam mae un o'r darnau/ffurfiau yn fwy effeithiol na'r llall).

**Ansawdd y drafodaeth (mynegi barn a thrafod y ddau ddarn ar y cyd)**

**3 marc**– mynegi barn a chyd-drafod yn <u>dda</u>

**2 marc –** mynegi barn a chyd-drafod yn <u>eithaf da</u>

**1 marc –** mynegi barn a chyd-drafod yn <u>fras</u>

**Cyfanswm marciau cwestiwn 3 = 15 marc**

- **½ marc am enwi nodwedd. Rhaid dyfynnu neu enghreifftio'n glir er mwyn ennill y marc enwi nodwedd.**
- **O fewn 1 ½ marc (½ marc am ddyfynnu/enghreifftio (yn benodol o'r darnau darllen) ac yna hyd at 1 marc am drafod effeithiolrwydd neu bwrpas neu resymu). Rhaid gwneud hyn yn fanwl a threiddgar i gael y marc llawn.**
- **Wrth sôn am fwriad yr awdur/pwy yw'r darllenwyr, oherwydd ei bod yn anodd enghreifftio neu ddyfynnu, rhoddir hyd at 1 ½ marc am esbonio'r pwrpas.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Iaith a Mynegiant Adran A = 10 marc**
**Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol.**

| **IAITH A MYNEGIANT**<br>**10** | **Marc**<br>**10** |
|---|---|
| • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf | 9-10 |
| • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf | 7-8 |
| • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau’n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf | 6 |
| • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf | 4-5 |
| • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf | 2-3 |
| • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf | 0-1 |

**Cyfanswm marciau Adran A = 50 (Cynnwys: 40 + iaith a Mynegiant: 10)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B**

**4.** Gweler y disgrifiadau canlynol ar gyfer asesu Cynnwys ac Iaith a Mynegiant.

Ffurf cwbl anghywir: haneru marc **Iaith a Mynegiant**
Camddehongli'r testun: haneru marc y **Cynnwys**
Darn byr - ½ i ¾ tudalen - ddim yn waith cyflawn o ran y cynnwys **(gweler y disgrifiadau isod**).

***Marciau yn ôl y disgrifiadau canlynol***

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL / PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 36-40 | 18-20 | • gwaith eithaf diddorol<br>• ymwybyddiaeth o rai elfennau i greu effaith<br>• gwaith pur drefnus | • cyflwyno gwybodaeth berthnasol a digonol<br>• datblygu rhai pwyntiau wrth berswadio<br>• gwaith pur drefnus<br>• cyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac addas i'r pwrpas | • adnoddau iaith pur dda<br>• arddangos gafael dda ar gystrawen<br>• arddangos gafael dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael dda ar eirfa<br>• adnabyddiaeth eithaf da o ffurf |
| 28-35 | 14 -17 | • gwaith ag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• peth ymdrech i ddefnyddio arddull ddiddorol<br>• ymdrech at fod yn drefnus | • cyflwyno ffeithiau digonol<br>• dangos peth ymdrech i ddatblygu pwyntiau i berswadio<br>• ymdrech at fod yn drefnus<br>• ymdrech i gyflwyno'n eglur | • adnoddau iaith lled foddhaol<br>• gafael weddol dda ar gystrawen<br>• gafael weddol dda ar sillafu, treigladau, atalnodi, paragraffu a therfyniadau berfau<br>• arddangos gafael eithaf da ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth eithaf da o ffurf |


© WJEC CBAC Cyf.

| **Cyfanswm marciau 40** | **Marc 20** | **CREADIGOL 20** | **FFEITHIOL / PERSWADIOL 20** | **IAITH A MYNEGIANT 20** |
|---|---|---|---|---|
| 22-27 | 11-13 | • ymdrech at waith diddorol<br>• ymdrech at waith cyflawn | • cyflwyno peth gwybodaeth<br>• peth ymdrech i berswadio<br>• ymgais at waith cyflawn ac i gyflwyno'n eglur | • peth gafael ar gystrawen<br>• dangos y gallu i sillafu, treiglo, atalnodi a pharagraffu<br>• defnyddio rhai terfyniadau berfau'n gywir<br>• arddangos peth gafael ar eirfa<br>• ymwybyddiaeth fras o ffurf |
| 14-21 | 7-10 | • ymdrech i gyflwyno manylion<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • trafod y testun yn fyr ac yn syml<br>• perswadio yn syml<br>• ymgais at drefn a dilyniant | • defnyddio geirfa a chystrawennau elfennol<br>• ymgais i baragraffu ac atalnodi<br>• sillafu'r rhan fwyaf o eiriau syml yn gywir<br>• terfyniadau rhai berfau'n gywir ar adegau<br>• dangos ymwybyddiaeth o ffurf |
| 8-13 | 4-6 | • peth ymgais i gyflwyno manylion<br>• peth dilyniant | • trafod y testun yn fyr neu berswadio yn fyr<br>• peth dilyniant | • ymgais i ddefnyddio iaith a chystrawen elfennol<br>• atalnodi'n gywir ar adegau<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio terfyniadau rhai berfau syml yn gywir<br>• peth ymwybyddiaeth o ffurf |
| 0-7 | 0-3 | • cynnwys yn denau iawn | • cynnwys yn denau iawn | • adnoddau iaith cyfyngedig<br>• ychydig iawn o atalnodi cywir<br>• sillafu rhai geiriau syml yn gywir<br>• defnyddio rhai berfau syml<br>• rhai elfennau o'r ffurf |

**Cyfanswm marciau cwestiwn 4 = 40 marc (Cynnwys: 20 + Iaith: 20)**



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN C**

**5. Defnyddio iaith**

Rhoddir **1** marc am bob cywiriad – ½ **marc** am adnabod gwall a ½ **marc** am gywiro'r gwall.

**patagonia > Patagonia**

– wedi ei gywiro fel enghraifft yn unig.

**Patagonia**

Dewch ar daith i'r Paith; dewch i Batagonia.

Bydd criw o Gymry mentrus yn mynd i Batagonia.

Gallwn eich sicrhau chi y bydd gwaith i bob un ohonoch a digon o dir i'w ffermio.

Bydd llong y Mimosa yn gadael ar Ebrill 25ain,1865.

Pris y daith fydd £12 i oedolion a £6 i blant (ond caiff dau blentyn deithio am bris un).

1. collnod **(i'r)**
2. treiglad meddal **( P>B Patagonia > Batagonia)**
3. atalnodi - priflythyren **(gymry > Gymry)**
4. sillafu - cymysgu y ac u **(mentrys > mentrus)**
5. rhagenw unigol/lluosog **( dy > eich)**
6. ffurf anghywir y gair **( yw > i'w) (yw > i – ½ marc adnabod y gwall)**
7. ffurf anghywir y fannod **( yr > y)**
8. treiglad lle nad oes ei angen **(adael > gadael)**
9. benywaidd/gwrywaidd y rhifolyn dau **(dwy > dau)**
10. treiglad meddal yn dilyn arddodiad **(pris > bris)**

Rhaid i'r sillafiad a'r prif lythrennau fod yn gywir yn yr ateb.

**Cyfanswm marciau cwestiwn 5 = 10**



© WJEC CBAC Cyf.